Whizz Kidz

Rydyn ni yma ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn ifainc



# Mobility Matters

## Safbwynt yr Ifainc ar Wasanaethau Cadair Olwyn y GIG

**Yn dilyn arolwg o fwy na 200 defnyddiwr cadair olwyn a'u teuluoedd, mae Whizz Kidz yn falch o gael rhannu adroddiad 'Mobility Matters' – gellir dod o hyd iddo'n llawn ar ein gwefan. Mae'r adroddiad yn trafod addasrwydd offer symudedd a gyflenwir gan y GIG i bobl ifainc – dyma giplun o'r pethau allweddol y daethom i wybod amdanynt.**

Mae pob Gwasanaeth Cadair Olwyn y GIG yn cael ei redeg gan y Bwrdd Gofal Integredig (ICB) ar gyfer yr ardal leol honno. Mae ymchwil yn dangos bod gwahaniaethau sylweddol yn y ffordd y mae gwasanaethau yn gweithredu. Felly, mae gwahaniaethau yr un mor sylweddol yn y profiad a gaiff defnyddwyr cadair olwyn ifainc a'u teuluoedd i gael gafael ar wasanaethau. Ers 2010, mae'r GIG wedi rhyddhau llawer ailadroddiad o arweiniad a fframweithiau yn amlinellu'r ffordd y mae Gwasanaethau Cadair Olwyn y GIG yn bwriadu darparu eu gwasanaethau. Yn gyffredinol, canolbwyntir ar ddarparu dull cyfannol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n hyrwyddo annibyniaeth a nodau a ffordd o fyw unigolion.

Mae Bwrdd yr Ifainc wedi codi mater addasrwydd yr offer a ddarperir ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn ifainc gan Wasanaethau Cadair Olwyn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). O'u profiadau personol eu hunain, maent wedi ystyried y gwahaniaeth enfawr mewn darpariaeth ar draws gwahanol rannau o'r wlad. Yn anecdotaidd, mae defnyddwyr cadair olwyn ifainc a'u teuluoedd wedi dweud yn aml wrth Whizz Kidz nad yw'r offer y maent yn eu cael gan y GIG bob amser yn addas. Rydym hefyd wedi gweld cynnydd digyffelyb mewn ceisiadau i'n Gwasanaeth Cadair Olwyn ac Offer, a arweiniodd at benderfyniad heb ei debyg o'r blaen, i gau ein rhestr aros am offer, dros dro yn Chwefror 2025.

Er bod ambell ardal fechan ble roedd arfer da wrth i gydweithwyr y GIG wneud eu gorau gyda'r adnoddau oedd ar gael, dangosodd dadansoddiad o ymatebion arolwg bod defnyddwyr cadair olwyn ifainc yn gweld bod eu hoffer GIG yn siomedig. Yn gyffredinol, nid oedd pobl ifainc yn teimlo bod eu hoffer yn addas. Dro ar ôl tro, byddai defnyddwyr cadair olwyn ifainc yn rhannu'r ffaith bod arnyn nhw eisiau ymwneud mwy â'r broses a chael gwell dealltwriaeth o'u hanghenion. Er gwaethaf hyn, roedd yna enghreifftiau o lwyddiant; byddai'r rhain yn digwydd yn bennaf pan fyddai pobl ifainc yn sôn bod eu hanghenion wedi cael eu deall a bod clinigwyr yn gweithio gyda hwy.

Mae'r adroddiad hwn wedi dod i ddeall bod llawer o'r arweiniad damcaniaethol a ddylai fod wrth wraidd y ffordd y mae Gwasanaethau Cadair Olwyn y GIG yn cael eu rhedeg, yn ymgyfuno'n dda â'r hyn yr hoffai defnyddwyr cadair olwyn ifainc a'u teuluoedd ei weld yn digwydd. Fodd bynnag, erys bwlch aruthrol rhwng yr arweiniad sy'n cael ei ryddhau a'r ffordd y mae Gwasanaethau Cadair Olwyn y GIG yn cael eu gweithredu. Mae llawer o'r diffygion a rannwyd gan deuluoedd fel ymatebion i'r arolwg yn adlewyrchu'r rhai a gafodd eu codi yn y gorffennol. Mae'r beirniadaethau a wnaed ers tro yn dangos, er gwaetha'r newidiadau a wnaed i arweiniad a chyflwyniad Gwasanaethau Cadair Olwyn y GIG dros y 15 mlynedd diwethaf, na chafodd hyn fawr o effaith ar ddefnyddwyr cadair olwyn ifainc.

# Y pethau allweddol y daethom i wybod amdanynt



O'r **bobl a ymatebodd,** llanwyd ein harolwg gan.

**203**

Dywedodd

**32%**

o'r bobl a ymatebodd eu bod yn teimlo nad oedd cydweithwyr yng Nghlinigau Cadair Olwyn y GIG **yn deall eu hanghenion ac nad oeddent yn gweithio gyda nhw o gwbl.**

O'r saith gwahanol faes angen y gofynnwyd amdanynt, dywedodd

**53%**

o bobl ifainc bod eu **cadair olwyn yn wael neu'n wael iawn.**

Ni chafodd mwy na thri chwarter o ddefnyddwyr cadair olwyn ifainc, sef

**77%**

**ddewis o unrhyw fath o ran gwneuthuriad neu fodel o offer** a gawsant gan y GIG.

O'r bobl ifainc ddywedodd bod cydweithwyr y GIG yn deall eu hanghenion ac yn gweithio gyda nhw, dywedodd

**32%**

ohonynt bod eu cadair olwyn yn **ardderchog neu'n dda am gwrdd â'u hanghenion.**

Yn gyffredinol, dywedodd defnyddwyr cadair olwyn ifainc bod addasrwydd yn golygu cadair olwyn sy'n **cwrdd â'u hanghenion fel unigolyn, sy'n ffitio, sy'n gyfforddus ac yn cynnig ystum da, ac sy'n hawdd i'w ddefnyddio a'i symud o gwmpas.**

"Nid oedd ar fy mab angen gadael ei fygi anabledd i gael ei fesur gan eu bod yn gwybod y gallai hyn fod yn brofiad poenus iddo. Hefyd, fe roesant ddewis i mi ynglŷn â'r ffordd yr hoffwn i i'r gadair fod, pethau fel a yw hi'n well cael clustogau ar yr ochrau neu addasu'r gadair i ffitio'n glyd o'i gwmpas, ayyb."

"Gwrandewch ar fy safbwynt i fel y person sy'n defnyddio'r gadair olwyn, nid diystyru fy awgrymiadau, a cheisiwch ddeall yr effaith y mae cadair olwyn sydd wedi'i osod/ffitio yn anghywir yn ei gael ar fy mywyd."

"Does dim dewis; mae'r gadair yn sylfaenol ac o ansawdd wael; mae'n rhoi rhyw gymaint o annibyniaeth ond mae wedi'i seilio ar gost."

Rydyn ni yma ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn ifainc

## Gallwch ddod o hyd i adroddiad llawn ‘Mobility Matters’ ar ein gwefan:

wkidz.org/policy

Os hoffech chi gysylltu â Bwrdd yr Ifainc neu Whizz Kidz ynglŷn â’r canllaw hwn neu unrhyw ffordd arall rydych chi’n teimlo y gallen ni gefnogi defnyddwyr cadair olwyn ifainc, cysylltwch â ni.

**Tîm Polisi Whizz Kidz**

policy@whizz-kidz.org.uk

facebook.com/whizzkidz

instagram.com/whizzkidzuk

linkedin.com/company/whizz-kidz

© Whizz Kidz 2026. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (802872) a’r Alban (SCO42607). Cwmni a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr (2444520)